HAWDD EI DDARLLEN

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Beth ydy Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus?



Cafodd y ddogfen hon ei hysgrifennu gan Brifysgol De Cymru ar ran Llywodraeth Cymru.

**Mawrth 2023**

# Cefndir

Weithiau, mae'r Gwasanaethau Cymdeithasol yn poeni sut rydych chi'n gofalu am eich plant.



Os bydd hyn yn digwydd, mae'r gyfraith yn dweud bod rhaid iddyn nhw weithio gyda chi i wneud yn siŵr bod eich plant yn ddiogel.




Mae'r Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus yn dweud sut dylen nhw wneud hyn.

Bydd y Gwasanaethau Cymdeithasol yn anfon llythyr atoch. Dylai'r llythyr ddweud 5 peth.

Daw'r lluniau yn y ddogfen hon o Photosymbols:
**www.photosymbols.com/**

OGL © Hawlfraint y Goron 2023, Llywodraeth Cymru, WG47204, ISBN digidol 978-1-80535-896-1
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg



## 1. Dylai'r llythyr ddweud sut mae'r Gwasanaethau Cymdeithasol yn poeni am eich plant a sut rydych chi'n gofalu amdanyn nhw.



Dylai'r llythyr ddweud beth maen nhw'n poeni amdano.



Dylai ddweud pa newidiadau maen nhw eisiau i chi eu gwneud..

## 2. Dylai'r llythyr eich gwahodd i gyfarfod



Yr enw ar y cyfarfod hwn ydy 'cyfarfod cyn-achos'.



Dylech chi gael digon o rybudd am y cyfarfod er mwyn i chi allu paratoi.

## 3. Dylai'r llythyr ddweud wrthych chi sut i gael cyfreithiwr



Dylech chi geisio cael cyfreithiwr cyn gynted â phosibl.

Pwrpas hyn ydy er mwyn iddyn nhw allu eich helpu chi.





Gwnewch yn siŵr eich bod yn cael cyfreithiwr sydd â phrofiad o gyfraith teulu.




Efallai eich bod chi hefyd eisiau gofyn iddyn nhw oes ganddyn nhw brofiad o gefnogi pobl ag anableddau dysgu.




Dylech chi fod yn gallu cael cymorth cyfreithiol i dalu am y cyfreithiwr.

## 4. Dylai'r llythyr sôn am unrhyw asesiadau y mae'r Gwasanaethau Cymdeithasol eisiau eu gwneud.




Gallai hyn gynnwys asesu sut rydych chi'n gofalu am eich plant.



Yr enw ar hyn ydy asesiad magu plant.



## 5. Dylai'r llythyr ddweud sut gall eich teulu a'ch ffrindiau gymryd rhan.



Efallai y gall eich teulu a'ch ffrindiau eich helpu i ofalu am eich plant.




Efallai y gallan nhw eich cefnogi i ofalu am eich plant.

Efallai y byddan nhw'n gallu gofalu am eich plant.



Mae'n bwysig fod y Gwasanaethau Cymdeithasol yn gwybod ydy'r gefnogaeth hon ar gael.

## Y Cyfarfod




Nod y cyfarfod ydy rhoi cynllun ar waith i wneud yn siŵr bod eich plant yn ddiogel.



Yn y cyfarfod, bydd trafodaeth am sut mae'r Gwasanaethau Cymdeithasol yn poeni am eich plant.



Dylai'r cynllun ddweud beth sydd angen ei newid.

Dylai ddweud pa gymorth fydd yn cael ei ddarparu.



Dylai ddweud hefyd erbyn pryd mae angen gwneud y newidiadau.






Efallai y byddan nhw'n gofyn i chi lofnodi cytundeb ysgrifenedig ynglŷn â beth sydd angen ei newid.

## Cefnogaeth yn ystod y broses Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus



Gall cyfreithiwr eich helpu drwy'r broses hon.




Efallai y byddai'n ddefnyddiol hefyd i chi gael cefnogaeth gan eiriolwr annibynnol.

Gallan nhw eich helpu i ddeall beth sy'n digwydd a beth ydy eich hawliau.



Gall yr eiriolwr eich helpu i feddwl am gwestiynau rydych chi eisiau eu gofyn.

Gallan nhw eich helpu chi i ddweud beth rydych chi eisiau ei ddweud.



Mae'n bwysig cael eiriolwr annibynnol cyn gynted â phosibl.

Os nad ydych chi'n cael cynnig eiriolwr, gofynnwch sut gallwch chi gael eiriolwr.



## Beth fydd yn digwydd ar ôl y cyfarfod?



Bydd y Gwasanaethau Cymdeithasol yn gwirio ydy'r pethau y cytunwyd arnyn nhw yn y cynllun yn digwydd.




Byddan nhw'n gwirio a oes unrhyw newidiadau angenrheidiol wedi cael eu gwneud.

Ar ôl 6 – 8 wythnos, bydd adolygiad yn cael ei gynnal..



Os ydy'r newidiadau wedi cael eu gwneud, efallai na fydd angen cymryd camau pellach.




Os oes rhywfaint o newid (ond dim digon), gall y Gwasanaethau Cymdeithasol benderfynu bod angen gwneud cynllun ar gyfer mwy o newidiadau.




Os nad oes newidiadau wedi cael eu gwneud a bod y Gwasanaethau Cymdeithasol yn dal i boeni, efallai y bydd angen iddyn nhw ofyn i'r llys sut dylid gofalu am eich plant.




Byddai hyn yn golygu mynd i'r llys.

Mae gwybodaeth Hawdd ei Darllen ar gael am y llys